



## Egwyddorion y Testunau Golygedig

Dafydd Johnston

Mae'r testunau golygedig yn rhai cyfansawdd sy'n tynnu ar holl dystiolaeth y llawysgrifau er mwyn cyrraedd mor agos â phosibl at gyfansoddiadau'r bardd ei hun. Fe'u cyflwynir mewn orgraff fodern, gan atalnodi a pharagraffu er mwyn amlygu'r ystyr, a rhoddir teitlau iddynt. Yn y traethawd hwn ymhelaethir ar y cwestiynau theoretig ac ymarferol sy'n codi yn sgil yr amcanion hyn.

Penderfynwyd llunio testunau cyfansawdd oherwydd natur trosglwyddiad y cerddi. Lle bo cerdd wedi goroesi mewn un fersiwn yn unig fe seilir y testun ar y copi llawysgrif hynaf, heb ei newid ond lle bo rhaid, fel yr eglurir isod. Ond mae'r rhan fwyaf o'r cerddi wedi goroesi mewn mwy nag un fersiwn, ac mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y fersiynau hynny. Gellir egluro rhai o'r gwahaniaethau hyn fel newidiadau gan ysgrifwyr wrth gopïo, ond mae lle i gredu bod llawer o'r amrywio'n deillio o drosglwyddiad llafar cynnar (h.y. dysgu cerdd ar gof a'i throsglwyddo ar dafod leferydd). Er bod y perfformiadau llafar yn ddiflanedig o ran eu hanfod, gellir bod yn bur sicr mai felly y trosglwyddwyd y rhan fwyaf o'r cywyddau, a rhai o'r awdlau ac englynion hefyd fe ymddengys, gan y bardd ei hun i'r datgeiniaid cyntaf, a chanddynt hwythau i'w holynwyr am ryw gyfnod cyn eu rhoi ar glawr yn ysgrifenedig. Nodir y dystiolaeth dros draddodiad llafar yn yr adran ar y llawysgrifau.

Ffrwyth traddodi llafar yw rhai o leiaf o'r gwahanol fersiynau o'r cerddi, fel y dengys yr amrywiaeth rhyngddynt o ran nifer a threfn llinellau yn ogystal â darlleniadau. Ar ôl ei roi ar glawr byddai fersiwn yn cadw ei brif nodweddion o ran trefn llinellau wrth gael ei gopïo'n ysgrifenedig, ond gallai ddatblygu ymhellach o ran darlleniadau wrth i gopïwyr addasu eu cysail. Dyna pam y gellir trin nifer o destunau annibynnol fel un fersiwn er bod rhai o'u darlleniadau'n wahanol.

Mae olion trosglwyddiad llafar i'w gweld yn amlycach mewn rhai testunau llawysgrif na'i gilydd, er enghraifft Pen 54 (gw. ymhellach yr adran ar y llawysgrifau), ond ni ellir cymryd bod yr un llawysgrif yn hollol rydd oddi wrtho. Ac mae anghysondeb testunau yn un o nodweddion traddodiad llafar. Er bod trosglwyddwr yn llwyddo i gadw'r testun a dderbyniodd yn bur ffyddlon ar y cyfan efallai, fe fyddai gan amlaf yn newid ei destun yn anfwriadol ac yn fympwyol mewn manau, trwy symleiddio darnau astrus, trwy gyfnewid cyfystyron, ac yn enwedig trwy adrodd llinellau mewn trefn wahanol neu golli rhai yn gyfan gwbl. Ar y llaw arall, gall testun sy'n cynnwys llawer o wallau cof hefyd gadw ambell ddarlleniad da a gollwyd mewn fersiynau eraill. Rhoddir enghreifftiau yn nes ymlaen o'r mathau o newidiadau sy'n nodweddiadol o draddodiadau llafar ac ysgrifenedig, ond y pwynt pwysig ar hyn o bryd yw bod y newidiadau hyn yn gyffredin trwy'r holl gopïau llawysgrif, gan gynnwys rhai'r

bymthegfed ganrif, ac o achos hynny prin y gellir llunio testun golygedig boddhaol ar sail un fersiwn yn unig. Pe dilynid y testun llawysgrif hynaf yn unig (fel y gwnaeth Fulton i raddau yn DGA), byddai'n rhaid hepgor llinellau a darlleniadau mewn testunau eraill sydd yn ymddangos yn ddilys yn ôl pob prawf sydd gennym.

A derbyn egwyddor y testun cyfansawdd fel modd i ymdopi â'r amrywiaeth mawr a welir yn y llawysgrifau, rhaid gofyn beth yn union yw statws y testunau a lunnir felly, a pha awdurdod sy'n perthyn iddynt, gan gofio mai cynnyrch barn golygydd modern ydynt. Honnir ein bod yn ceisio cyrraedd yn ôl at y cyfansoddiadau gwreiddiol, ac yn wir mae pob un o'r canllawiau golygyddol a restrir isod yn rhagdybio bodolaeth testun gwreiddiol a gwybodaeth amdano, ond pa mor ystyrlon a pha mor ymarferol yw'r fath amcan?

Y feirniadaeth fwyaf sylfaenol ar egwyddor y testun golygedig yw'r ddadl bod y cysyniad o destun sefydlog yn estron i ddiwylliant llafar, ac na fu un testun gwreiddiol sefydlog erioed am ei fod yn amrywio bob tro y câi'r gerdd ei pherfformio o'r newydd gan y bardd ei hun.<sup>1</sup> Yn ôl y ddadl hon, nid un weithred ddiffiniedig oedd y cyfansoddi, eithr proses benagored, ac ni ellir sôn am unrhyw 'gyhoeddi' terfynol a fyddai'n fodd i sefydlogi'r testun. (Ond mae'r ymryson yn codi cwestiynau diddorol ynglŷn â chyhoeddi; sylwer yn arbennig ar 28.15–18.) Mae hyn yn gymorth i esbonio'r amrywio geiriau cyfystyr a welir yn aml yn y testunau llawysgrif. Os yw amrywio o'r fath yn deillio o wahanol berfformiadau gan y bardd ei hun, yna mae'r ddau ddarlleniad (neu ragor) yr un mor ddilys â'i gilydd. Bu hylifedd, felly, yn wedd hanfodol ar y testun o'r cychwyn cyntaf.

Rhesymol yw tybio na fyddai'r bardd yn adrodd ei destun yn union yr un fath air am air mewn dau berfformiad. Ond y cwestiwn yw beth fyddai hyd a lled yr amrywio. Nid oes tystiolaeth uniongyrchol ar gyfer barddoniaeth y 14eg ganrif, ond mae tystiolaeth ar gyfer y 15fed ganrif yn y copïau o gerddi Lewys Glyn Cothi yn llaw'r bardd ei hun. Lle ceir mwy nag un testun o'r un gerdd mewn gwahanol lawysgrifau mae digon o wahaniaethau rhyngddynt i ddangos nad oedd y bardd yn copïo o un gysail ysgrifenedig, ond yn hytrach yn dibynnu ar ei gof ac i ryw raddau'n ailgyfansoddi wrth ysgrifennu. Ond mae'r amrywiadau'n digwydd o fewn yr un fframwaith cynganeddol ac yn cadw'r un synnwyr sylfaenol. Maent yn gyfyngedig i gyfystyron, a phethau fel amserau berfau, arddodiaid a geirynnau dibwys eraill.<sup>2</sup> Mae'r amrywio llawer yn llai, felly, na'r hyn a geir mewn testunau diweddarach o waith y bardd. Gellid dadlau bod cerddi Lewys Glyn Cothi'n fwy sefydlog am fod y bardd yn fwy cyfarwydd â'r testun ysgrifenedig, ac y byddid yn disgwyl amrywio helaethach mewn cerddi o'r ganrif flaenorol. Ond ni ddylid synio am ddiwylliant Dafydd ap Gwilym fel un llafar yn unig. Dengys y ddau destun cyfoes o'i waith yn Llawysgrif Hendregadredd (un o bosibl yn ei law ei hun) a chyfeiriadau yn ei gerddi fel yr un at 'gwrrach memrwn' (24.21) ei fod yn hen gyfarwydd â thestunau ysgrifenedig. Y gwir amdani yw mai cyfuniad o'r llafar a'r ysgrifenedig oedd diwylliant beirdd Cymru trwy gydol yr Oesoedd Canol diweddar. Ac felly teg yw defnyddio testunau Lewys Glyn Cothi i roi amcan o'r radd o amrywio y gellid ei disgwyl yng ngherddi Dafydd ap Gwilym cyn iddynt gael eu lledaenu ymhellach gan ddatgeiniadaid a chopiwyr.

<sup>1</sup> Gw. Jerry Hunter, 'Testun Dadl', *Tu Chwith* 3 (1995), 81–5; Helen Fulton, 'Awdurdod ac Awduriaeth: Golygu'r Cywyddwyr', yn lestin Daniel et al. (goln), *Cyfoeth y Testun* (Caerdydd, 2003), 50–76 (65–8).

<sup>2</sup> Am esiampl gw. Dafydd Johnston, 'Dafydd ap Gwilym and Oral Tradition', SC xxxvii (2003), 143–61 (150), a gw. ymhellach nodiadau testunol GLGC.

Byddai mydr a chynghanedd yn cadw'r testun yn sefydlog i raddau helaeth, ac yn hyn o beth mae'r cysyniad o destun cywir ac awdurdodol yn anochel. Mae holl ddysg y beirdd yn rhagdybio delfryd o gywirdeb, fel y dengys sawl honiad yn eu cerddi, e.e. geiriau lolo Goch am Lywelyn Goch, 'Ni cheir ungair . . . ar gam yn lle ar y gerdd' (GIG XXII.33–4). Mae cywirdeb ac awdurdod yn ddelfrydau hanfodol yng Ngramadegau'r Penceirddiaid, a dadlennol iawn yw'r rhybudd ynghylch diffygion datgeiniaid. Dyma dystiolaeth gyfoes bod newidiadau testunol yn digwydd na fyddai'n dderbyniol gan awdur y gerdd. Un o'r tri pheth na ddylai cerddawr eu credu yw hyn:

kanu kam gerd o brydyd kanmoledic ac awdurdawt idaw, kanys damwein yw kaffael datkeinyat a datkano kerd yn gwbyl megys y kano y prydyd. (GP 17)

Serch hynny, mae'r gynghanedd yn gyfundrefn hyblyg yn ei hanfod, ac fel arfer mae lle i amrywio rhai geiriau o fewn ei fframwaith, yn enwedig mewn cynganeddion traws a llusg. Y bylchau mewn llinell o gynghanedd yw'r geiriau sy'n rhydd i newid heb effeithio ar y gynghanedd, ac yn y manau hynny gellir disgwyl amrywio rhwng fersiynau, fel y gwelir yn nhestunau Lewys Glyn Cothi. Rhaid derbyn, felly, fod elfen o baradocs yn natur y testun barddol. Er ei fod yn sefydlog yn y bôn, cydnabyddid gradd gyfyngedig o hyblygrwydd o fewn y ffiniau sefydlog. Roedd y math hwn o sefydlogrwydd hyblyg yn nodweddiadol ar draddodiadau barddol dysgedig eraill yn yr Oesoedd Canol.<sup>3</sup>

A derbyn sefydlogrwydd hyblyg fel egwyddor destunol sylfaenol, mae'n dilyn nad yw'r ymgais i ail-greu testun o'r fath mor seithug ag y mae rhai wedi dadlau'n ddiweddar. Ond mae hefyd yn dilyn na ellir fyth gyrraedd testun cywir terfynol, a bod y rheidrwydd i ddewis un darlleniad a gwrthod y lleill yn gamarweiniol weithiau. Mae amwysedd a deuoliaeth yn nodweddiadol amlwg ar holl waith Dafydd ap Gwilym, ac mae'n bosibl ei fod wedi manteisio ar hyblygrwydd y testun i gryfhau'r nodweddiadol hynny trwy adrodd gwahanol fersiynau o'r un llinell ar wahanol adegau neu hyd yn oed yn rhan o'r un perfformiad. Er enghraifft, mae'r ddau fersiwn o ail linell y cwpled hwn yn 'Sarhau ei Was' yn cyflwyno darlun pur wahanol o'r bardd, ac ni ellir profi bod y naill yn gywir a'r llall yn anghywir:

Minnau o'm clwyf a'm anhun

Yn wylo byth yn ôl bun. (74.15–16)

Yn gwyllo byth am gael bun (GDG 128.16)

Mae'n berffaith bosibl bod y ddwy linell yn waith Dafydd ap Gwilym ei hun, ac iddo eu hamrywio er mwyn creu darlun amwys ohono'i hun, naill ai'n ferchetwr cyfrwys neu'n fethiant truenus, fel y gwnaeth mewn cerddi eraill fel 'Merched Llanbadarn' (137) a 'Trafferth mewn Tafarn' (73). Esiampl arall o amrywiaeth a allai fod yn arwyddocaol yw'r ddau fersiwn o'r llinell allweddol yn 'Chwarae Cnau i'm Llaw' (95.30) lle datgelir nifer y cnau, y naill yn cynnwys 'amnifer' a'r llall 'cyfnifer'. Mewn achosion eraill mae'n anodd iawn gwahaniaethu rhwng amrywiadau sy'n deillio o berfformiad amgen gan y bardd ei hun a rhai sy'n deillio o ailwampio gan ddatgeiniaid (e.e. *anfadr* /

<sup>3</sup> Gw. Johnston, 'Dafydd ap Gwilym and Oral Tradition', 150–1 ar farddoniaeth Sgaldig Gwlad yr Iâ, ac Amelia Van Vleck, *Memory and Recreation in Troubadour Lyric* (Berkeley, 1991). Mae arfer beirdd Iwerddon o gyfansoddi yn y tywyllwch wedi cael ei gweld yn arwydd mai llafar oedd eu traddodiad yn bennaf, ond disgwyliad i ddisgyblion barddol roi'r gerdd orffenedig ar glawr yn ysgrifenedig wedyn, a dadleuodd Damian McManus yn ddiweddar mai ysgrifenedig oedd prif gyfrwng cadwraeth barddoniaeth Wyc' . . . g, gw. 'The Bardic Poet as Teacher, Student and Critic', yn Cathal G. Ó Háinle a Donáld E. Meek (goln), *Unity in Diversity: Studies in Irish and Scottish Gaelic Language, Literature and History* (Dublin, 2004), 97–123 (102–3).

ynfydwr yn 137.40).<sup>4</sup> Mae modd dewis rhwng amrywiadau cyfystyr gan amlaf ar sail ansawdd tystiolaeth y llawysgrifau neu trwy ddefnyddio egwyddor y darlleniad anos (gw. bwynt 40 isod), ond weithiau ni ellir profi nad yw dau neu hyd yn oed dri darlleniad yn ddilys. Ac yn yr un modd, er bod amrywiaeth mewn trefn llinellau yn cael ei ystyried yn arwydd clir o drosglwyddiad llafar, nid annichon fod peth ohono'n deillio o wahanol fersiynau ar y gerdd gan y bardd ei hun, yn enwedig lle nad yw'r drefn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ergyd y gerdd, er enghraifft mewn cyfresi dyfalu.

Hyd yn oed a derbyn bod ail-greu testun gwreiddiol y bardd yn amcan ystyrion yn y bôn, rhaid cyfaddef ei fod yn amcan uchelgeisiol iawn. A dyma ddod at yr ail feirniadaeth sylfaenol ar y testun golygedig, sef y ddadl na ellir pontio'r agendor o gan mlynedd o leiaf, a dau gan mlynedd yn aml, rhwng y llawysgrifau cynharaf a'r testunau gwreiddiol. Mae gwedd theoretig i'r ddadl hon yn ogystal â'r wedd ymarferol amlwg. Y safbwynt theoretig sy'n sail iddi yw materoliaeth ddiwylliannol, sef theori sy'n gwrthod synio am y gwaith llenyddol fel haniaeth ddelfrydol yn bodoli y tu hwnt i amser a lle, ac sy'n mynnu canolbwyntio yn hytrach ar y gwaith fel gwrthrych mewn llawysgrif neu lyfr, gan archwilio amodau a dibenion ei gynhyrchu. Mae Dafydd ap Gwilym yn achos cymwys iawn ar gyfer y theori hon oherwydd yr agendor rhwng cyfnod tybiedig y gwaith gwreiddiol a chyfnod y llawysgrifau, a hefyd oherwydd y gwahaniaethau dirfawr rhwng y testunau a grewyd gan Thomas Parry a'r hyn a geir yn y llawysgrifau. Llefarydd croywaf materoliaeth ddiwylliannol yn y maes hwn yw Helen Fulton. Dyma ddau ddatganiad ganddi sy'n crynhoi ei safbwynt:

Virtually none of the poems in Parry's text occurs exactly in that form in any medieval or renaissance manuscript. They are the products of a twentieth-century editor, and not of a medieval scribe, let alone a fourteenth-century poet.<sup>5</sup>

[P]an awn ati i olygu'r cywyddau, nid oes modd dod o hyd i ryw destun 'gwreiddiol' a awdurdodwyd gan ei awdur. Yn hytrach, talu teyrnged a wnawn i gopiïwyr a chasglwyr llawysgrifau'r Dadeni. Fersiynau'r oes honno a geir yn y llawysgrifau, ffrwyth trosglwyddo'r cywyddau drwy estheteg a theorïau ystyr y Dadeni.<sup>6</sup>

Nid yw Fulton yn caniatáu trin testun llawysgrif fel tystiolaeth am arferion ieithyddol neu farddol unrhyw gyfnod cynharach na dyddiad y llawysgrif ei hun (gw. ei rhagymadrodd i DGA). Ac ystyried pob testun llawysgrif ar ei ben ei hun mae'r safbwynt hwn yn ddigon rhesymegol. Ond mae modd dod i gasgliadau am yr hyn a'u rhagflaenai trwy gymharu testunau. Gellir cymryd un cam pwysig yn ôl y tu hwnt i gasgliadau'r Dadeni yn achos y testunau sy'n tarddu o llawysgrifau coll hysbys. Lle bo gennym ddau neu ragor o gopiïau o destunau Llyfr Gwyn Hergest, y Vetustus a Llyfr Wiliam Mathew, gellir adlunio'r rhan fwyaf o'r testun coll yn weddol hyderus, ac yn wir mae'n rhaid gwneud hynny er mwyn esbonio'r berthynas rhwng y copiïau sydd wedi goroesi (gw. canllawiau 31 a 32 isod). Er nad yw Llyfr Gwyn Hergest yn bodoli bellach, mae gennym wybodaeth fanwl am ei destunau sy'n estyn y traddodiad llawysgrifol yn ôl i drydydd chwarter y 15fed ganrif, hynny yw cyn cyfnod y Dadeni yng Nghymru. A thrwy ddilyn yr un egwyddor gellir tynnu ar holl dystiolaeth y llawysgrifau i geisio

<sup>4</sup> Gw. ymhellach Dafydd Johnston, 'Cyngan Oll'? *Cynghanedd y Cywyddwyr Cynnar* (Darlith Goffa J. E. Caerwyn Williams a Gwen Williams, Aberystwyth, 2007).

<sup>5</sup> Helen Fulton, 'The Editor as Author: Re-producing the Text. A Case Study of Parry's Gwaith Dafydd ap Gwilym', *Bibliographical Society of Australia and New Zealand Bulletin*, 19, ii (1995), 67–78 (73).

<sup>6</sup> Fulton, 'Awdurdod ac Awduraeth', 72–3.

adlunio cynseiliau coll anhysbys, er yn fwy petrus o lawer. Y cwestiwn a erys yw pa mor agos y mae'r dull hwn yn ein galluogi ni i fynd at y cerddi gwreiddiol. Ac mae'r cwestiwn hwnnw'n amlygu'r wedd ymarferol ar feirniadaeth y materolwyr diwylliannol, sef bod y dystiolaeth llawysgrifol sydd gennym yn annigonol fel sail i ail-greu'r cerddi gwreiddiol.

Amlygir y feirniadaeth ymarferol hon yn astudiaeth Peredur Lynch o gynghanedd cywyddau Dafydd ap Gwilym.<sup>7</sup> Gan adleisio safbwynt theoretig Fulton, dadleuir nad yw testunau cyfansawdd GDG yn sylfaen ddiogel ac felly seilir y dadansoddiad ar y dystiolaeth wrthrychol gynharaf, sef pedair llawysgrif o'r 15fed ganrif (gan gynnwys Llyfr Gwyn Hergest fel y'i cynrychiolir gan y copiâu yn Pen 49). Mae'r dadansoddiad yn amlygu'r anawsterau a gyfyd yn sgil ymyrraeth copi-wyr diweddar â'r cynganeddion, ond nid yw'n profi bod ail-greu'r testunau gwreiddiol yn nod amhosibl, ac yn wir mae'n darparu cymorth gwerthfawr iawn i fynd yn nes atynt trwy adnabod y safoni a fu ar gynghaneddion afreolaidd.

Yr unig un o holl gerddi Dafydd ap Gwilym sy'n cynnig tystiolaeth uniongyrchol am yr amrywio testunol a allai ddigwydd dros gyfnod o ddwy ganrif yw 'Marwnad Angharad' (rhif 9), awdl sydd wedi goroesi mewn copi mwy neu lai cyfoes â'r bardd ei hun yn Llawysgrif Hendregadredd (nas defnyddiwyd ar gyfer GDG), a hefyd mewn nifer o gopiâu llawysgrif annibynnol o'r 16eg ganrif ymlaen. Mae arwyddocâd yr achos hwn ar gyfer y gwaith o ail-greu testunau cynnar yn ddeublyg. Yn y lle cyntaf dengys fod yr amrywio'n fater o ddirywiad i raddau helaeth. Petai rhaid dibynnu ar un, neu hyd yn oed ddau neu dri o'r fersiynau diweddar ni ellid cyrraedd yn agos at y testun a gadwyd yn y 14eg ganrif. A phrin y gellid dadlau bod unrhyw un ohonynt yn deillio o berfformiad cynnar amgen, gan nad yw'r amrywiadau'n arbennig o ystyrlon o ran trefn na darlleniadau. Testunau llwgr ydynt oll i wahanol raddau ac mewn gwahanol fannau. Ar y llaw arall, fe ddiogelwyd pob llinell o destun Hendregadredd a'r rhan fwyaf o'i ddarlleniadau mewn rhai o leiaf o'r llawysgrifau diweddar, ac nid ychwanegwyd llinellau nas ceir yn Hendregadredd. Mae'r achos hwn yn ddadl dros y testun cyfansawdd felly. Trwy dynnu ar dystiolaeth yr holl fersiynau diweddar gellid cyrraedd yn weddol agos at y testun cynnar, er mai camp anodd fyddai dewis yn gywir o blith yr holl ddarlleniadau amrywiol (fel y gwelir o gymharu testun GDG â'r golygiad hwn).

Rhaid cyfaddef bod 'Marwnad Angharad' yn neilltuol o astrus o ran arddull. Nid yw'n syndod felly fod llawer o'r llinellau'n llwgr yn y fersiynau diweddar. Braf fyddai cael copi cyfoes o un o gywyddau DG er mwyn gallu mesur maint y dirywiad mewn testunau diweddar. Mae'n debyg y byddai'r dirywiad dipyn yn llai yn achos cerdd symlach. Ond hyd yn oed yn achos y cywyddau mae'n amlwg mai rhyfygus fyddai honni ein bod yn medru ail-greu cerdd gyfan yng ngeiriau'r bardd ei hun. Gwell mynd ati fesul llinell (neu hyd yn oed hanner llinell), ac wedyn efallai fesul paragraff.

Mae digon o linellau lle mae mesur, cynghanedd a synnwyr yn cyd-daro i sicrhau ffurf y llinell, ac yn atgyfnerthu tystiolaeth gyson y llawysgrifau, fel nad oes rheswm i amau nad geiriau'r bardd sydd gennym, fel y rhain:

Afrlladen o nen y nef (50.28)

Rhwyd adar y ddaear ddu (57.18)

Gwneuthur, ni bu segur serch,

Amod dyfod at hoywferch (73.21–2)

<sup>7</sup> Peredur Lynch, 'Cynghanedd Cywyddau Dafydd ap Gwilym: Tystiolaeth y Llawysgrifau Cynnar', yn Iestyn Daniel et al. (goln), *Cyfoeth y Testun* (Caerdydd, 2003), 109–47.

Cyrch ystum caer a chastell (45.12)

Drud byd heb droed heb adain (47.4)

Drythyllfab ar draethellfor (47.42)

Haws cerdded nos ar rosydd (57.47)

Dibynna sicrwydd y darlleniad i raddau ar y math o gynghanedd. Croes a sain sy'n rhoi'r fframwaith llawnaf, ond mae llawer o linellau ysgafnach eu cynganeddiad yn ddiamrywiad yn y llawysgrifau oherwydd y synnwyr eglur, fel yr esiampl olaf uchod. Anodd rhoi ffigur pendant ar fynychder y llinellau cadarn hyn, gan eu bod yn fater o farn oddrychol, a'r mynychder yn amrywio o gerdd i gerdd, ond efallai fod cymaint â thri chwarter o holl linellau DG yn syrthio i'r categori hwn.

Mae gwahanol fathau o ansicrwydd yng ngweddill y llinellau. Un yw'r amrywio cyfystyron neu eiriau dibwys sy'n digwydd heb wneud dim gwahaniaeth i'r gynghanedd na'r synnwyr sylfaenol. Wrth reswm mae hyn yn fwyaf amlwg lle bo nifer o wahanol fersiynau o'r un gerdd, fel rhif 36. Lle nad oes ond un fersiwn rhaid ystyried y potensial sydd ar gyfer y math hwn o amrywio. Amcangyfrifir bod rhwng 10% a 15% o linellau DG yn syrthio i'r categori hwn. Geiriau nad ydynt yn rhan o'r gynghanedd o gwbl sy'n amrywio fwyaf, fel y ddau air cyntaf yn y llinell hon o gynghanedd lusg (gw. darlleniadau amrywiol y llawysgrifau):

A gosod gyngor gorau (36.63)

Felly hefyd yr arddodiad yn y llinell hon:

Yn myned mewn lludded llwyr (36.13)

Ond gall yr amrywio ddigwydd o fewn y gynghanedd ei hun, fel yr ansoddeiriau yn y ddwy linell hyn:

Gan addwyned gweled gwŷdd (36.21)

Swydd faith a llafur sydd fwy (36.52)

O ran ei hanfod nid yw'r math hwn o amrywio yn gwneud llawer o wahaniaeth i ansawdd y testun, ac fel y nodwyd uchod fe ddichon fod peth ohono'n tarddu o wahanol fersiynau gan y bardd ei hun. Ond weithiau mae'r llawysgrifau'n cynnig dewis rhwng dau ddarlleniad hollol groes i'w gilydd o ran synnwyr, fel y dewis rhwng *yn ael* (= o flaen) ac *yn ôl* yn y llinell hon:

A niwl gwyn yn ael gwynt (33.23)

Gellir bod yn weddol hyderus bod y dewis golygyddol yn gywir yn yr achos hwnnw gan fod gwynt yn chwalu niwl, ond nid yw'r darlleniad cywir mor amlwg bob tro. Yn y llinell hon o'r ymryson mae *waeldrefn wedd* yn ddarlleniad amrywiol ar gyfer y sangiad:

Nid gwayw yng nghefn, wiwdrefn wedd (23.21)

Mae *waeldrefn wedd* yn ddarlleniad hollol ddichonadwy, ac fe rydd synnwyr da yn arwynebol, ond o ystyried y darn yn ei gryswth fe welir mai pwynt y sangiad yw bod gwaywffon yn y cefn yn ffordd fwy anrhydeddus o farw na nychu o wewyr serch. Rhaid i'r golygydd ddibynnu ar ei ddehongliad ei hun mewn achosion fel hyn, ac wrth gwrs nid yw ei farn yn anffaeledig.

Math arall o ansicrwydd yw llinell sy'n ddryslyd yn y llawysgrifau a'r ystyr yn aneglur. Gan amlaf mae darlleniad anodd mewn un fersiwn yn fodd i esbonio'r dryswch yn y lleill (e.e. *cwyn* = 'gwledd' yn 73.3). Ond weithiau mae pob un o ddarlleniadau'r llawysgrifau yn anfoddhaol, ac mae'r golygydd yn cynnig diwygiad sy'n adfer y darlleniad anodd y tu ôl i'r cwbl (gw. pwynt 39 yn y canllawiau isod).

Mae rhai diwygiadau'n fwy mentrus na'i gilydd; e.e. gellir bod yn weddol sicr am *dyungas* yn 68.5, ond yn llai felly am *llaw* yn 6.112 a *cynnwgl* yn 31.29 am eu bod yn bellach oddi wrth ddarlleniadau'r llawysgrifau. Ond o ran y nod o gyrraedd geiriau gwreiddiol y bardd, y pwynt hanfodol am yr holl ddarlleniadau anodd hyn, pa un a ydynt yn digwydd yn y llawysgrifau neu beidio, yw ei bod yn afresymegol tybio nad ydynt yn wreiddiol. Os ydynt i fod i esbonio darlleniadau llwgr eraill rhaid cymryd eu bod yn gynseiliau yn rhagflaenu'r cwbl, ac nid yw'n gwneud synnwyr eu trin fel datblygiad o rywbeth arall gan mai tuedd gyffredinol trosglwyddiad llafar ac ysgrifenedig oedd symleiddio.

Prin yw'r llinellau llwgr heb obaith adfer y darlleniad gwreiddiol. Mae ambell enghraifft yn rhai o'r awdlau (e.e. 17.23 a 31.39), ac efallai fod hynny'n arwydd eu bod wedi'u trosglwyddo'n ysgrifenedig. Yn y traddodiad llafar roedd rhaid sicrhau bod y testun yn gwneud synnwyr boddhaol bob amser ar gyfer ei berfformio, ac felly byddai anawsterau testunol yn cael eu cuddio trwy ailwampio. Un o'r sgiliau a ddisgwylid gan y datgeiniad yn ôl Statud Gruffudd ap Cynan oedd 'gwybod a fydd pennill o gowydd yni le a medry i roi yni lle oni byddant'.<sup>8</sup> Fe ddichon fod rhai achosion o'r fath yn y testunau nad oes modd eu hadnabod bellach, yn enwedig mewn cerddi a oroesodd mewn un fersiwn yn unig.

Trwy ddynesu at y testun fesul llinell, felly, nid rhyfygus yw honni bod rhannau helaeth o'r cerddi gennym yng ngeiriau gwreiddiol y bardd. Ac yn yr un modd, gall uned y paragraff fod yn sail ar gyfer hyder cymedrol yn y testun (gw. ymhellach bwynt 46 yn y canllawiau isod). Mae llawer o baragraffau lle mae rhediad y synnwyr yn cadarnhau trefn y llinellau a ffurf y brif frawddeg os nad pob un o'r sangiadau (e.e. 107.25–32). Ac fe ddichon fod cymesuredd strwythurol rhai cerddi (e.e. rhifau 7, 10 a 87) yn brawf na chollwyd dim o'u llinellau. Amcangyfrifir ar y cyfan bod tua 90% o'r testunau (a mwy yn achos rhai cerddi) yn cynrychioli geiriau gwreiddiol y bardd ei hun. Cwestiwn arall, wrth gwrs, yw pa fodd y buasai'r bardd wedi cofnodi'i gerddi'n ysgrifenedig, os o gwbl. Rhaid cofio mai ymgais i gynrychioli geiriau llafar yn ôl confensiynau print ein hoes ni yw'r testunau golygedig (gw. yn enwedig bwyntiau 44–47 isod). A hyd yn oed ar ôl sefydlu'r testun gall ei ystyr fod yn ansefydlog am fod mwy nag un dehongliad yn bosibl (gw. bwynt 43 isod).

Mae'r canllawiau golygyddol sy'n dilyn yn ymgais i osod seiliau mor wrthrychol â phosibl ar gyfer y gwaith o lunio testun, a lleihau'r elfen o reddf neu ysbrydoliaeth neu fympwy gan y golygydd. Ond ni ellir hepgor barn oddrychol y golygydd yn llwyr, yn enwedig lle seilir y testun ar synnwyr tybiedig y darn.

Rhaid ymochel hefyd rhag creu barddoniaeth ry berffaith, rhyw ddelfryd o destun sy'n parchu pob rheol yn ddi-fai. Ni orfodwyd testunau'r llawysgrifau i mewn i fframwaith o'r fath bob tro. Mae'r canllawiau yn codi o dystiolaeth y llawysgrifau, ac ni ddylent ei hystumio. Felly er bod llinell seithsill mewn cywydd yn ganllaw pendant, gadawyd rhai llinellau'n fyr neu'n hir os nad oedd ffordd amlwg o'u cywiro (e.e. 75.14, 78.2, 139.18). Mae'n bosibl bod DG wedi canu ambell linell afreolaidd, ond nid yw'r posibilrwydd yn rheswm dros ollwng y canllaw'n llwyr. Ac mae rhai o'r canllawiau hyn

<sup>8</sup> Dyfynnir o BL 15038 (c. 1575), gw. Bethan Millar, *Ysbyddogaeth a Chelfyddyd y Crythor* (MA, Prifysgol Cymru, 1983), II, 554.

yn ymwneud yn benodol ag afreoleidd-dra fel cymorth i sefydlu testun. Gwaith y golygydd yn yr achosion hynny yw adfer testun afreolaidd a gyflwynir ar ffurf ddelfrydol yn y llawysgrifau.

Dosbarthwyd y canllawiau yn ôl eu natur, sef rheolau crefft, nodweddion iaith ac arddull, arferion trosglwyddwyr, a dulliau o ymdrin â thystiolaeth y llawysgrifau. Ond mae'r rhain yn dibynnu ar ei gilydd i raddau helaeth, ac anaml y cymhwysir un canllaw heb alw ar rai o'r llall.

## Rheolau Crefft

Mae'r term 'rheolau' yn codi cwestiynau ynglŷn â dysg y beirdd a'u cysyniad o grefft a chywirdeb. Mae Fulton wedi dadlau mai creadigaeth John Morris-Jones yw rheolau'r gynghanedd (Fulton, 1996, xxvi–vii), ond y gwir amdani yw mai disgrifiad o arferion cynganeddol y beirdd yn seiliedig ar ddadansoddiad o'u cerddi a geir yn *Cerdd Dafod* Morris-Jones, ac mae ffynonellau o'r 14eg ganrif yn ategu ei ddadansoddiad.<sup>9</sup> Mae'r rheolau isod yn seiliedig ar destunau'r cerddi fel y'u ceir yn y llawysgrifau gorau, ac maent yn cydnabod nifer o nodweddion a ystyrir yn afreolaidd mewn cyfnodau diweddarach. Mae'r rhan fwyaf o'r rheolau hyn yn hollol elfennol, ond maent yn ganllawiau hollbwysig. Heb y rhain, yn enwedig hyd y llinell, ni ellid sefydlu testun sicr.

## Mesur

- 1) Saith sillaf mewn llinell o gywydd, a'r hyd safonol ar gyfer llinellau mesurau eraill hefyd, sef 10/9 mewn pennill o doddaid, 9 mewn cyhydedd nawban (a geir ynghyd â thoddaid mewn penillion gwawdodyn), 7/7/7/7 mewn englyn proest, 10/6/7/7 mewn englyn unodl union. Sefydlwyd hyd llinellau mesurau'r awdl a'r englyn ymhell cyn cyfnod DG, a dengys cannoedd o linellau o waith DG a'i gyfoeswyr mai saith sillaf oedd hyd llinell y cywydd. Saith oedd yn arferol ym mesur y traethodl hefyd, ond mae lle i gredu bod hyd llinellau'r traethodl yn amrywio mwy, gw. nodiadau rhif 148. Ar eiriau fel *bwrw*, *eiry*, etc., gw. nodweddion iaith isod.
- 2) Y naill brifodl yn acennog a'r llall yn ddiacen mewn cwpled o gywydd, ac felly hefyd esgyll englyn unodl union. Prifodl newydd ymhob cwpled o gywydd (heblaw mewn cywydd unodl). Mae'r egwyddor hon yn gymorth i benderfynu rhwng trefn dau fersiwn yn rhif 117 (cymh. GDG 77.17–20). Ond eithriad yw 78.23–6 lle cedwir yr un brifodl dros ddau gwpled (ai er mwyn pwyslais?). Cyfyd eithriad arall yn 68.59–62 yn sgil cyfuno dau fersiwn, ond mae lle i amau safle'r cyntaf o'r ddau gwpled.
- 3) Ail odl y gynghanedd sain ar y bumed sillaf yn llinell gyntaf toddaid neu englyn unodl union (gw. 6.113n lle mae'r egwyddor hon yn fodd i sefydlu'r testun; gw. hefyd 7.31n.).
- 4) Er bod cymeriad llythrennol a chynganeddol yn nodwedd amlwg ar gerddi DG, nid yw'n ddigon cyson i fod yn egwyddor werthfawr wrth sefydlu testun. Cedwir cymeriad o fewn cwpled o gywydd fel rheol, ond mae goddefiadau fel cyfatebiaeth llafariadau a chytseiniaid a goferu synnwyr yn ei gwneud hi'n anodd dewis rhwng darlleniadau ar sail y cymeriadau (gw. e.e. 34.26n., 144.53n.). Mewn cyfresi estynedig o gymeriad geiriol digon cyffredin yw un llinell yn amrywio'r patrwm (e.e. 88.10). Amheus yw aildrefnu llinellau ar sail cymeriad, fel y gwnaeth Thomas Parry mewn manau, ond gall fod yn ddefnyddiol mewn

<sup>9</sup> Gw. Lynch, 'Cynghanedd Cywyddau Dafydd ap Gwilym', 113–14.



darn o ddyfalu lle mae'r drefn yn amrywio'n fawr yn y llawysgrifau (e.e. 57.15–46). Mae cyrch-gymeriad yn cysylltu englynion yn aml (e.e. 9.1–36), ond nid yw'n rheol ddigon cadarn i gyfiawnhau aildrefnu englynion 'Marwnad Llywelyn ap Gwilym' yn groes i dystiolaeth y llawysgrifau fel y gwnaed yn GDG 13.

### Cynghanedd

- 5) Mae llinellau digynghanedd yn bosibl ym mraich gyntaf cwpled y cywydd. Mae rhai copïau llawysgrif yn debyg o ychwanegu cynghanedd mewn llinellau o'r fath (e.e. 34.13, 47.63). Ac mae'r cwpled cyfan yn ddigynghanedd yn sgwrs y ddwy ferch yn 137.27–34 (cymh. 67.6, eto yn llais merch).
- 6) Gall  $n$ ,  $m$ , ac  $r$  fod heb eu hateb, yn wreiddgoll neu'n berfeddgoll (gw. Parry, 1939), ac felly hefyd  $f$  am ei bod yn lled-lafarog. Gall hyn fod yn gymorth i ddewis rhwng dau ddarlleniad lle bo un wedi ceisio safoni'r gynghanedd drwy ateb y llythyren goll neu'i dileu (e.e. 33.11), neu hyd yn oed yn sail dros ddiwygio i ddarlleniad sy'n cynnwys llythyren goll (e.e. 75.36, 115.4). Ond nid yw llythrennau canolgoll yn bwysig ar gyfer sefydlu testun cywydd o'r 14eg ganrif, er eu bod o bosibl yn arwyddocaol o ran dosbarthu'r cynganeddion. Atebir  $h$  fel arfer (e.e. rhif 103, lle mae'n ffurfio cymeriad llythrennol drwy'r cywydd, ac ail linell pob cwpled yn rhif 34), ond mae ambell esiampl o'i gadael heb ei hateb (e.e. 5.12; gw. ymhellach Crawford, 1985, 258). Yn 92.2 dilynwyd darlleniad y llawysgrifau, *eb oir*; gwrthygyferbynnir GDG 79.2 *Heb ohir* sy'n gadael dwy  $h$  heb eu hateb.
- 7) Derbynnir cynganeddion anghyflawn (gwreiddgoll, pengoll, braidd gyffwrdd). Unwaith eto, bydd copïau llawysgrif yn tueddu i gywiro'r rhain (e.e. GDG 72.31).
- 8) Mae cynghanedd sain gadwynog a sain drosgl yn ddigon cyffredin yng ngherddi DG. Mae tuedd i geisio safoni aceniad sain drosgl mewn rhai llawysgrifau.
- 9) Heblaw'r goddefiadau uchod, disgwylir un o'r pedwar math o gynghanedd ym mhob llinell, a honno'n safonol o ran aceniad. Cywiriwyd aceniad GDG 124.13 (= 73.15) trwy ddilyn y llawysgrifau gorau (*gwaraeau*). Bu'n rhaid diwygio yn 36.50 er mwyn adfer aceniad safonol (cyferbynnir GDG 63.48), ond sylwer mai un fersiwn yn unig sy'n cynnwys y llinell. Os ceir llythyren heblaw  $n$ ,  $m$ ,  $r$ ,  $f$  ac  $h$  yn torri ar gyfatebiaeth gytseiniol, neu os ceir cyfatebiaeth anghyflawn megis caled a meddal, mae lle i amau bod y llinell yn llwgr.
- 10) Mae cynganeddion DG yn adlewyrchu arferion ieithyddol o ran caledu cytseiniad, sef  $h$  yn caledu cytsain feddal o'i blaen, a dwy gytsain feddal yn caledu ( $d + d = t$ ,  $g + g = c$ ,  $b + b = p$ ). Gwelir eithriadau i'r rheol hon yn 76.9 (oni bai bod y  $g$  ar ddiwedd ll. 8 yn peri caledu'r  $g$  ar ddechrau ll. 9) a 146.16 (ond mae lle i amau awduraeth yr ail gerdd).

### Nodweddion Iaith

Roedd llawer o'r elfennau hynafol yn iaith DG yn annealladwy erbyn cyfnod y llawysgrifau, ac yn debyg o gael eu newid, fel y gwelir isod o dan arferion trosglwyddwyr. Nodir yma y nodweddion sy'n gymorth i ddewis rhwng darlleniadau.

- 11) Unsill yw *bwrw*, *carw*, *eiry*, *daly*, etc., yn gyson (er bod yr arfer o sillgoli ar eu

hól yn awgrymu eu bod yn ddeusill yn iaith lafar y cyfnod). Ond mae'n amlwg bod y ffurfiau hyn yn ddeusill i gopiŵyr yr 16eg ganrif, a bydd sillaf yn cael ei hepgor rywle arall yn y llinell yn aml iawn. Weithiau nid yw'n hawdd gweld lle y dylid adfer sillaf, ac felly gadawyd y llinell yn fyr, ond nid oes yr un enghraifft ddigamsyniol yng ngherddi'r canon o gyfrif un o'r ffurfiau hyn yn ddeusill. 12) Mae rhai ffurfiau'n cyfrif yn ddeusill weithiau ac yn unsill dro arall (e.e. *troes* 96.54, ond *troes* 77.4, 103.25; *niwl* 33.23, 57.52, ond *niwl* 57.14).

- 13) Anodd cyffredinoli am y treigladau gan eu bod yn anwadal yn y llawysgrifau (a chan y bardd ei hun i raddau, e.e. gair cyntaf sangiad), ond mae treigladau DG yn adlewyrchu arferion Cymraeg Canol yn bennaf. Felly ni threiglir gwrthrych rhai ffurfiau berfol yn yr amser presennol / dyfodol neu'r amser gorffennol, ond ar y llaw arall treiglir gwrthrych a goddrych berf yn yr amser amherffaith / amodol. Ond treiglir enw yn dilyn ansoddair neu enw mewn swyddogaeth ansoddeiriol ('hydref ddail') yn gyson oni bai bod amodau seinegol yn atal y treiglad, ac felly hefyd ansoddair yn dilyn enw benywaidd. Gall yr orffwysfa yng nghanol llinell a dechrau llinell newydd atal treiglad a ddisgwyliid fel arall (e.e. 56.26 a 28, ond cyferbynnwr 56.46). Ar y cyfan mae'r treigladau'n fwy o gymorth i ddehongli'r testun nag i'w sefydlu (gw. e.e. y nodyn ar *cyweirglod bun* yn 45.11).
- 14) Mae cenedl rhai geiriau'n wahanol i'r hyn sy'n arferol mewn Cymraeg Modern, e.e. *haul* (ben.) a *dinas* (gwr.). Lle mae *dyn* yn cyfeirio at ferch (fel y mae gan amlaf yn y cerddi) mae ei genedl yn amrywio.

### Nodweddion Arddull

- 15) Mae amrywio seiniau a geiriau tebyg yn nodwedd amlwg ar gynganeddiad y cerddi, gan gynnwys y cymeriadau dechreuol. Achosodd hyn ddryswch yn y testunau (e.e. *lleas* / *lles* 6.47), ac fe geir bod dau air wedi'u trawsosod yn aml (e.e. *Gweirfyl* / *gwirfawl* 144.44). Mae ailadrodd yr un gair neu elfen o air mewn llinell neu gwpled yn amheus (e.e. *hoen* / *goroen* mewn fersiynau o 9.47, a 149.24 lle diwygiwyd er mwyn osgoi ailadrodd *gwallt* yn odlau'r gynghanedd sain).
- 16) Mae cyfran sylweddol o ieithwedd DG yn deillio o weithiau'r Gogynfeirdd, a gall cyfatebiaeth â cherdd un o'i ragflaenwyr fod yn fodd i gadarnhau darlleniad a gollwyd mewn rhai copïau (e.e. *llydw* 9.60).
- 17) Mae brawddegau DG yn aml yn ymestyn dros ddau gwpled neu dri, ond mae tuedd yn y llawysgrifau i'w hailwampio er mwyn eu cwtogi a'u cadw o fewn ffiniau'r cwpled (gw. e.e. 73.35–8).
- 18) Mae rhediad synnwyr brawddeg estynedig a rhesymeg paragraff yn ganllawiau pwysig wrth benderfynu rhwng darlleniadau (e.e. yn 31.85–8.) Mae lle i amau ymadroddion gwag neu ddigyswllt, ac ailadrodd dibwrpas. Ond mae anawsterau ynghlwm wrth ddibynnu ar synnwyr (gw. y ddau bwynt nesaf).
- 19) Anodd dewis weithiau rhwng y gair disgwyliedig a'r trosiad beiddgar (e.e. *cŵn* / *clêr* 31.3).
- 20) Anodd penderfynu ar rychwant ystyr gair, ac ni ddylid cymryd yn ganiataol ei fod yr un peth ag yn yr iaith fodern. Ceisiwyd cadw at ddarlleniadau'r llawysgrifau weithiau trwy ddeall gair wahanol i'r arfer (e.e. *twrn* yn 32.33, a newidiwyd i *bwrn* yn GDG).

- 21) Roedd DG yn hoff o ddefnyddio ansoddeiriau'n enwol (e.e. mewn ymadroddion fel 'drud byd' am y gwynt, 47.4). Mae rhai o'r rhain wedi'u camddehongli gan Thomas Parry wrth atalnodi, neu gan gyfieithwyr (e.e. 'gloyw wybr' am y seren = gwylithyn yr awyr, 50.38). Gan amlaf mae'r nodwedd hon yn gymorth i ddehongli'r testun ar ôl ei sefydlu, ond gw. 134.28 lle mae darlleniad y llinell yn dibynnu ar ddeall *trilliw* fel enw (gw. hefyd y pwynt nesaf).
- 22) Mae'r elfen ddiriaethol a gweledol yn gryf iawn yng ngherddi DG, ac fe all hyn fod yn gymorth i ddewis rhwng darlleniadau, e.e. *trilliw* yn 134.28 (gw. 21 uchod), a *lle'th ariannwyd* yn 45.9 (cyferbynnir *llathr ei annwyd* GDG 118.9).

### Arferion Trosglwyddwyr

Er mwyn dehongli tystiolaeth y llawysgrifau rhaid ystyried y mathau o newid y byddai datgeiniaid a chopiwyr yn dueddol o'u gwneud i'r testunau a dderbynient. Gellir eu dosbarthu fel a ganlyn, gyda rhai'n benodol i'r cyfrwng trosglwyddo ac eraill yn gyffredinol:

- 23) **Camddarllen**  
Methu adnabod llythyren, e.e. cymysgu rhwng *c* a *t* (5.12?), neu gamddehongli orgraff y gysail, e.e. *d* am *dd*. Mae pethau fel hyn yn codi yn y copïau o Lyfr Gwyn Hergest (e.e. gw. 126.13n.).
- 24) **Camglywed**  
Cymysgu geiriau sy'n swnio'n debyg (e.e. *gynhinen* / *genhinen* 118.2; *fardd* / *farf* 116.59); colli cytsain yng nghesail un arall (e.e. *iaith Ofydd* am *iaith Ddofydd* yn 147.16); colli gair drwy gywasgu llafariad (e.e. 114.1; 141.16; 150.21).
- 25) **Camgofio**  
Rhoi gair cyfystyr mewn bwllch yn y gynghanedd (e.e. 36.63); ailadrodd yr un gair, neu achub y blaen arno (e.e. *eiddil* 29.1/9); aralleirio syniad (e.e. 24.5–6); aildrefnu llinellau; colli llinellau; ychwanegu llinellau crwydr (e.e. testun M 146 o rif 45, lle ysgrifennwyd llinell o rif 39 ar gam oherwydd yr odl ar 'annwyd').
- 26) **Camddeall**  
Newid geiriau anghyfarwydd gan golli'r ystyr (e.e. *neud i nid*; *crafangog* yn lle *cyfragod* 109.3; *dyun* > *dyn* 68.5), a symleiddio cystrawen brawddegau estynedig. Byddai rhai cystrawennau Cymraeg Canol yn debyg o gael eu camddeall a'u hailddehongli; e.e. 'mawr a beth' (a newidiwyd weithiau i 'mawr beth' neu 'a mawr beth', e.e. 33.9, 114.1). Camddehongli homoffonau (e.e. *hun* 98.4 yn Pen 54).
- 27) **Diweddaru**  
Rhoi ffurf fodern yn lle ffurf Gymraeg Canol (*o* am *a*; *i'w* am *i = i'i* neu am *oe*); rhoi gair cyfystyr yn lle un hynafol (e.e. *mi* yn lle *neur* yn 10.1); ychwanegu arddodiad lle dynodid y cyrchfan drwy dreigladd meddal yn unig (e.e. 16.4).
- 28) **Safoni**  
Cywiro llinell a ystyrid yn wallus o ran nifer sillafau (yn sgil newid arall yn aml) neu o ran cynghanedd.

29) **Newid mympwyol**

Anodd gwahaniaethu'n sicr rhwng hwn a'r mathau eraill o newid, ond fe ymddengys weithiau bod newidiadau'n cael eu gwneud am y rheswm syml eu bod yn bosibl, fel math o hunan-fynegiant ar ran y datgeiniad (e.e. 9.15). Mae lle i gredu bod y gynghanedd ei hun yn annog amrywio o'r fath (e.e. *Ilyw / llew / llaw* yn 6.26). Gellir meddwl y byddai beirdd yn dueddol o addasu hen destunau'n greadigol (e.e. copiâu Gwilym Tew yn Pen 54). Ac mae rhai o'r llinellau ychwanegol a geir mewn ambell lawysgrif yn debyg o fod yn ffugiadau bwriadol (e.e. rhai am adar yn rhan gyntaf rhif 36, a'r talpiauw mawr yn llawer o destunau Wy 2).

**Llawysgrifau**

- 30) Gellir dosbarthu testunau'r llawysgrifau'n fersiynau sylfaenol, fel y gwelir yn y stemâu. Gwneir hynny ar sail nifer a threfn llinellau gan amlaf. Cynnyrch traddodiad llafar yw rhai os nad pob un o'r fersiynau hyn, fel yr eglurwyd uchod, a gall fod mân amrywiadau o ran darlleniadau o fewn pob fersiwn yn sgil ailwampio wrth gopïo. Mae'r rhan fwyaf o'r cerddi wedi goroesi mewn o leiaf dau fersiwn. Os nad oes ond un fersiwn o gerdd mae'n haws cyfiawnhau diwygio darlleniadau. Mae canolbwyntio ar fersiynau sylfaenol yn fodd i osgoi'r camgymeriad o bwysu tystiolaeth y llawysgrifau yn ôl eu nifer. O safbwynt nifer y copiâu byddai tystiolaeth fersiwn y Vetustus yn pwysu'n drymach yn y fantol bron bob tro oherwydd y copïo helaeth a fu arno.
- 31) Gellir ail-greu i raddau helaeth destunau y tri chasgliad coll hysbys, sef Llyfr Gwyn Hergest, y Vetustus a Llyfr Wiliam Mathew, ar sail y copiâu ohonynt sydd wedi goroesi (gw. ymhellach yr adran ar y llawysgrifau). Hwn yw'r cam rhesymegol cyntaf y tu hwnt i'r testunau llawysgrif sydd gennym.
- 32) Lle gwyddys bod testun yn gopi o destun arall sy'n bodoli, ond eto'n wahanol iddo mewn manau, ni pherthyn awdurdod annibynnol i'r darlleniadau amgen, ni waeth pa mor ddeniadol y bôn, oni bai fod lle pendant i gredu bod y copïydd yn tynnu ar fwy nag un ffynhonnell (e.e. rhai o destunau Jaspas Gruffyth yn G 3 a Ll 120). Yn ddamcaniaethol mae'n bosibl fod darlleniadau amgen yn tarddu o gof y copïydd am berfformiad llafar, ond mae ymyrraeth traddodiad llafar yn annhebygol erbyn diwedd yr 16eg ganrif. Felly rhaid gwrthod y darlleniad *gwenieithfin* a fabwysiadwyd yn GDG 118. 23 (gw. 45.23n.), a *ddigerydd* a fabwysiadwyd yn GDG 74.33 (gw. 133.33n.). Ac yn yr un modd, lle bo nifer o destunau'n tarddu o gynsail goll, ac mae un yn rhoi darlleniad gwahanol i'r lleill, y tebyg yw mai ymgais gan gopïydd i wella ar ddarlleniad y gynsail yw hwnnw. Felly, e.e., rhaid gwrthod darlleniad H 26 yn 83.15, *cusan y fun*. Mae hyn yn fodd i osgoi dewis darlleniadau'n fympwyol. Ac os oes lle i gredu bod pob copi'n tarddu o'r un gynsail, yna mae'n haws cyfiawnhau diwygio lle bo llinell yn ymddangos yn llwgr (e.e. 17.23, 83.15, a sawl llinell yn rhif 70).
- 33) Lle bo cerdd wedi goroesi mewn mwy na dau fersiwn annibynnol, gall cytundeb dau neu ragor yn erbyn un fod yn ganllaw defnyddiol i benderfynu rhwng darlleniadau (e.e. 6 .4, 20; 115.21). Ond rhaid ystyried y posibilrwydd bod yr un newid yn digwydd yn annibynnol mewn mwy nag un fersiwn am ei fod yn ddeniadol neu'n naturiol (e.e. <sup>1</sup> *mid gwraig i merch* yn 42.2 er mwyn parchusrwydd, a symleiddio *ni ddawr* yn 34.32, ac *ys > os* yn 118.43)

- 34) Mae'r copi llawysgrif hynaf yn fan cychwyn wrth sefydlu testun, a dilynir ei ddarlleniad oni bai fod rheswm penodol i'w wrthod ar sail un neu ragor o'r canllawiau eraill. Ond ni pherthyn awdurdod arbennig iddo yn rhinwedd ei oedran yn unig (heblaw llawysgrifau'r 14eg ganrif; rhif 9 yw'r unig gerdd lle mae copi cynnar yn cael blaenoriaeth dros y lleill yn rhinwedd ei oedran). Oherwydd y traddodiad llafar, gall fersiwn a roddwyd ar glawr am y tro cyntaf yn yr 16eg ganrif (e.e. yn Llyfr Wiliam Mathew) fod yr un mor werthfawr ag un a gofnodwyd yn y 15fed ganrif.
- 35) Nid yw'r ffaith fod llinellau i'w cael mewn un fersiwn yn unig yn ddigon o reswm ynddo'i hun i'w gwrthod. Rhaid penderfynu eu dilysrwydd ar sail tystiolaeth fewnol. Diogelodd llawysgrifau'r 15fed ganrif nifer o linellau a gollwyd mewn fersiynau diweddarach. A rhaid ystyried y posibilrwydd bod llinellau a geir mewn llawysgrif ddiweddar yn unig yn tarddu o destun cynnar coll (e.e. 24.1–2, 73.15–16 a 19–20).
- 36) Os bydd llinellau i'w cael mewn mwy nag un o gerddi DG, a'u bod ymhob fersiwn o'r naill, ond mewn un fersiwn yn unig o'r llall, yna y tebyg yw eu bod yn perthyn yn y gerdd gyntaf yn unig (e.e. GDG 63.65–6 = 41.9–10).
- 37) O ran trefn llinellau, fel arfer dilynir y testun llawysgrif gorau (nid o reidrwydd yr hynaf). Nid aildrefnir yn groes i dystiolaeth y llawysgrifau heb reswm cryf iawn. (Nid yw rheswm Thomas Parry dros aildrefnu'r englynion yn rhif 6 yn ddigonol, gw. nodiadau'r gerdd.) Mae'r darnau o ddyfalu'n tueddu i fod yn gymysglyd iawn yn y llawysgrifau, a rhaid derbyn na ellir cael sicrwydd ynghylch y drefn briodol weithiau. Mae ansicrwydd yn anochel pan fo llinellau'n digwydd mewn un fersiwn yn unig, a threfn y fersiwn hwnnw'n wahanol i fersiynau eraill (e.e. 6.65–8).
- 38) Fel arfer gellir dilyn darlleniad un fersiwn ar gyfer llinell gyfan. Ond ni raid glynu wrth un fersiwn ar gyfer llinell unigol, mwy nag ar gyfer cerdd gyfan. Mae lle i gredu bod llinellau'n cael eu cofio fesul darn (naill ai hanner neu draean yn dibynnu ar ei chystrawen a'i chynghanedd), ac felly gellir cyfuno mwy nag un fersiwn i gyrraedd darlleniad boddhaol (e.e. 6.25, 6.63, 137.29). Ar y llaw arall, gellir gwrthod pob un, ac adfer darlleniad sy'n fodd i egluro'r cwbl (gw. y pwynt nesaf).
- 39) Yn achos darn sydd yn amlwg wedi peri trafferth i'r copiŵyr, rhaid ystyried tystiolaeth pob fersiwn er mwyn mynd at wraidd y broblem, gan geisio cyrraedd darlleniad sy'n fodd i esbonio'r cwbl, yn hytrach na dewis un darlleniad boddhaol ac anwybyddu'r lleill (e.e. *dogn* yn 115.42, *ceuoedd* yn 56.28, a *cydlwynach* yn 133.25). Weithiau bydd hyn yn golygu diwygio i adfer darlleniad coll sy'n gorwedd y tu ôl i'r cwbl (e.e. 6.112 a 130.18).
- 40) Fel y gwelwyd eisoes, mae tuedd yn y llawysgrifau i ddiweddarau a symleiddio'r iaith, a newid darlleniad annisgwyl yn ystrydeb, ond prin y gwelir y gwrthwyneb, sef gwneud rhywbeth syml yn fwy astrus. Felly gellir gweithredu egwyddor y darlleniad anos, neu'r *lectio difficilior*, sef y mwyaf anghyffredin o blith dau neu fwy o ddarlleniadau (e.e. *caenfedw* yn 14.2, *arail* yn 34.42 a 38.8, *marth* yn 56.49, *ni thechwn* yn 98.30, a *rhuddfoawg* yn 108.8).

Ni raid i'r darlleniad gwreiddiol fod yn air anodd ynddo'i hun chwaith, os ydyw'n annisgwyl yn y cyd-destun (e.e. *wanllun* yn 9.30 a *bath* yn 32.18), neu'n gryfach na'r gair cyffredin (e.e. *delff* yn hytrach na *gwas* yn 73.55). Mae hon yn egwyddor hynod ddefnyddiol wrth sefydlu testun, nid yn unig er mwyn penderfynu rhwng darlleniadau, ond hefyd er mwyn adfer darlleniadau coll sy'n fodd i esbonio llygru (e.e. *cynnwgl* yn 31.29). Ond mae rhaid bod yn ofalus gan na ellir bod yn sicr bob amser pa mor gyffredin neu ddealladwy fyddai gair yng nghyfnod trosglwyddo'r cerddi. Yn achos *cynnwgl* yn 31.29 mae'n arwyddocaol na chofnodwyd enghraifft o'r gair y tu allan i'r testunau cyfreithiol.

- 41) Mae amrywiadau yn y llawysgrifau yn eiriau cyfystyr yn aml (e.e. *addwyned a digrifed* 36.21), ac anodd iawn weithiau yw dewis rhyngddynt. Y tebyg yw mai datgeiniaid oedd yn gyfrifol am amrywio o'r fath, ond fel y nodwyd uchod nid annichon bod rhai amrywiadau yn mynd yn ôl i wahanol berfformiadau gan y bardd ei hun.
- 42) Gall darlleniadau'r llawysgrifau mewn un gerdd fod yn gymorth i ddatrys problem mewn cerdd arall. Gw. 83.15n lle cyfiawnheir diwygio *cusan fun* i *cusan fu* ym trwy gyfeirio at *dirdras fu* ym yn 150.21 a geir fel *dirdras fun* mewn un copi.
- 43) Yn rhesymegol mae dehongli'n rhan hanfodol o'r broses o sefydlu'r testun, gan na fyddid yn bodloni ar destun diystyr. Ond yn ymarferol, er bod ffurf y testun yn gwbl sicr, gall y dehongliad fod yn fater o farn, e.e. 50.38 lle nad oes cwestiwn ynghylch ffurf eiriol y llinell, ond mae lle i anghytuno ynghylch perthynas y geiriau hynny â'i gilydd. Gall patrymau ieithyddol ac arddulliol fod yn sail i ddehongli mewn achosion fel hyn (gw. 21 a 22 uchod). Fel arfer dengys yr atalnodi farn y golygydd, ond weithiau rhaid troi at yr aralleiriad i weld sut y dehonglir y testun golygedig (e.e. 'balch o febyd fûm' yn 73.4, lle na ellir amlygu'r dehongliad trwy atalnodi). Nid yw hyn yr un peth ag amwysedd bwriadol (sydd i'w weld efallai yn y gair 'balch' yn y llinell honno).
- 44) **Orgraff**  
Er mai orgraff fodern safonol a ddefnyddir yn y testunau golygedig, os bydd copi llawysgrif cynnar yn rhoi ffurf ar air a ystyrir yn ansafonol heddiw, ond y ceir esiamplau eraill ohoni o gyfnod DG (e.e. *yinglyn* am *englyn* yn 39.5), fe'i derbynir. Mae orgraff y 14eg ganrif i'w gweld yn nhestunau Llawysgrif Hendregadredd a Llyfr Gwyn Rhydderch o rifau 1, 9 a 84, ac mae orgraff geidwadol y 15fed ganrif i'w gweld gliriaf yn nhestunau Pen 57 a Pen 52, ac yn fwy cymysg yn Pen 48, Pen 52, Pen 54, Pen 55 a Pen 67.

Cedwir rhai ffurfiau Cymraeg Canol fel a ganlyn:

*no(g)* am *na(g)*; mae'r ffurf hon yn gyffredin yn nhestunau'r 14eg ganrif (gw. GPC 2587), ac fe'i profir gan odl yn 124.56.

*fal* am *fel*; ar sail y llawysgrifau cynharaf eto, a thestunau'r 14eg ganrif (gw. GPC 1267–8).

*-ig* yn y sillaf olaf lle ceir *-yg* heddiw. Dyma'r sillafiad a geir yn y llawysgrifau gorau, ac fe brofir yr ynganiad gan odlau cyson â geiriau fel *dig* (gw. ymhellach CD 247–8).

*ydiw*, fel y profir gan odl yn gyson (e.e. 151.22); gw. GMW 4.

*mywn* am *mewn* yn 1.157 lle dilynir orgraff testun Llawysgrif Hendregadredd.

*wyd* am *wyt*, ac *-ud* am *-ut* yn ail berson unigol amherffaith / amodol y ferf; profir yr hen ffurf gan odl a chynghanedd mewn sawl man (ond cyferbynnir 63.12 a gw. nodiadau ar *gwyddut* yn 31.88 ac *wnaut* yn 121.25).

*ymy* ac *yty* (= imi, iti) lle mae'r odl yn eu sicrhau, neu lle y'u ceir mewn testun llawysgrif cynnar.

*gwedy*; profir y ffurf gan odl yn 6.97. Cyferbynnir yr enghr. mewn cywydd ansicr ei awduraeth, 153.37, lle profir *gwedi* gan odl.

Diwedderir *-aw* ac *-aw-* > *o* oni bai bod odl yn gofyn am y ddeusain. (Ond cadwyd *rhuddfoawg* yn 108.8 gan mai dyna'r ffurf yn yr unig lsg. a ddiogelodd y darlleniad.)

#### 45) **Atalnodi**

Prin a phur anghyson yw'r arwyddion atalnodi yn y llawysgrifau cynharaf, ac fe ymddengys gan amlaf eu bod yn dynodi rhaniadau mydryddol yn hytrach na'r gystrawen. Felly gwaith y golygydd yw'r holl atalnodi yn y testunau golygedig, ac mae'n adlewyrchu ei ddehongliad ef o'r ystyr. Y prif arwyddion a ddefnyddir yw'r coma, sy'n dynodi naill ai sangiad sy'n torri ar rediad y brif frawddeg neu ymadrodd sy'n gyfochrog â rhan o'r brif frawddeg, yr atalnod llawn sy'n dynodi bod yr uned gystrawennol ar ben, a'r ebychnod a'r gofynnod fel y bônt yn briodol. Gellid atalnodi holl farddoniaeth DG â'r pedwar arwydd hynny yn unig, ond fe wneir defnydd dethol hefyd o'r hanner-colon lle bo perthynas bendant o ran ystyr ond nid o ran cystrawen ffurfiol (e.e. 10.15–20, 65.12), a defnydd achlysurol o'r colon i gyflwyno pethau sy'n dilyn (e.e. 117.56), a dau strac i wahanu brawddeg neu ebychiad y tu fewn i frawddeg arall (e.e. 33.16–18, 137.13–14, 52.53).

Hyd yn oed gyda'r holl adnoddau hyn mae'n amheus a oes modd atalnodi rhai darnau'n gwbl foddhaol oherwydd eu harddull. Nid y brawddegau sangiadol sy'n achosi'r trafferth mwyaf, gan fod modd amlygu rhediad y rheini trwy ddefnydd helaeth o'r coma (e.e. 57.1–6), ond yn hytrach y darnau disgrifiadol llac eu cystrawen, heb ond ychydig o ferfau, e.e. 117.33–48, lle mae popeth yn dibynnu ar y ferf *wyd* yn 33. Mae'r darnau dyfalu i gyd yn syrthio i'r categori hwn, gan nad oes dim cyswllt cystrawennol rhwng y delweddau (e.e. 57.15–46). Atalnodwyd y rhain fesul cwpled yn bennaf yn GDG, gydag atalnod llawn ar ddiwedd y rhan fwyaf o'r cwpledi, a hynny er gwaethaf barn Thomas Parry nad yw'r arddull gwpledol yn nodweddiadol o waith DG. Yn y golygiad hwn gwnaed mwy o ddefnydd o'r coma er mwyn cynnal llif y darn. Mewn darnau cymysg eu cystrawen gellid atalnodi mewn mwy nag un ffordd. Ystyrier, er enghraifft, 44.21–2 lle gwelir problem gyffredin, sef perthynas llinellau di-ferf â'u cyd-destun; a yw'r rhain i'w deall gyda'r llinellau blaenorol, neu'r rhai sy'n dilyn, ynteu a ddylent sefyll yn annibynnol? Mae'n debyg nad oes ateb terfynol i'r cwestiynau hyn oherwydd natur lafar y farddoniaeth. Gallai perfformiad byw gynnal cystrawen lac yn haws o lawer na thestun ysgrifenedig. Rhaid cyfaddef, felly, ein bod i ryw raddau yn gwrthio barddoniaeth Dafydd ap Gwilym i fframwaith anghydnaws wrth ei hatalnodi, a bod ein harwyddion yn annigonol i gyfleu ystwythder llif rethregol y cerddi. Mae'r sylwadau isod ar baragraffu hefyd yn berthnasol i'r mater hwn. Ar ddulliau o atalnodi a'u heffaith ar ystyr y testun gw. Helen Fulton, 'Punctuation as a Semiotic Code: the Case of the Medieval Welsh cywydd', *Parergon* 13;2 (1996), 21–35.

46) **Paragraffu**

Dyfais olygyddol fodern yw paragraffu cywyddau, ac nid oes unrhyw sail iddi yn y llawysgrifau. Ar un olwg mae unrhyw baragraffu yn gosod dehongliad y golygydd ar y gerdd (gw. ymhellach Fulton, 'Punctuation as a Semiotic Code', ar y modd y gall paragraffu liwio ystyr cerdd). Gellid cyfiawnhau argraffu'r cywyddau heb unrhyw baragraffu, fel y gwnaeth Ifor Williams yn DGG, a gadael i'r darllenydd benderfynu drosto'i hun ble mae'r gerdd yn ymrannu. Ond mae lle i gredu bod y Cywyddwyr cynnar yn cyfansoddi y rhan fwyaf o'u cerddi mewn unedau o ryw fath, ac felly y byddai'r cysyniad o baragraff (beth bynnag fyddai'r enw arno) yn ystyrllon iddynt. Fe geir blociau o linellau sy'n unedau thematig clir, e.e. y darn yn 'Y Don ar Afon Dyfi' (51.9–26) lle mae'r bardd yn atgoffa'r don o'r holl fawl iddi yn ei gerddi. Mae pedair brawddeg annibynnol yma, ac mae'n wir bod modd amrywio trefn y tair olaf, fel y gwelir yn nhestun Pen 54, ond mae pob un o'r tair yn ymhelaethu ar y cwestiwn rhethregol yn y frawddeg gyntaf, ac felly mae'n glir bod y deunaw llinell yn perthyn gyda'i gilydd yn uned synnwyr. Mae strwythur rhethregol yn clymu llinellau'n baragraff yn bur aml (cymh. 10.31–40 a 22.9–18). Gall delweddaeth neu gymhariaeth greu undod thematig mewn paragraff hefyd, fel y ddelweddaeth ariannol yn 32.9–18, a'r cyfeiriad at chwedl Peredur sy'n ffurfio paragraff maith yn 86.33–52. Peth arall a fyddai'n clymu grŵp o linellau ynghyd oedd y cymeriadau dechreuol, e.e. 47.19–32 a 111.1–14, blociau o bedair llinell ar ddeg sy'n unedau o ran sain a synnwyr (cymh. hefyd 22.1–8, 32.1–8, a rhifau 89 a 103 lle cynhelir yr un cymeriad drwy gerdd gyfan). Roedd ailadrodd yr un gair neu elfen yn fodd i glymu llinellau ynghyd, fel y gwneir trwy ailadrodd *di*-yn 20.35–42, a *neud* yn 32.29–38. Ond gan amlaf mae cymeriad estynedig yn digwydd o fewn darnau sy'n unedau hwy o ran ystyr, e.e. y darn hir o ddyfalu yn 'Y Niwl' (57.15–46) lle ceir tair cyfres o gymeriad estynedig yn ogystal â llinellau lle mae'r cymeriad yn gyfyngedig i'r cwpled. Ni ellir cymryd y cymeriad yn ganllaw i baragraffu darn o'r fath, ond fe ellir paragraffu yn ôl thema.

Mae nifer y paragraffau yn dibynnu wrth gwrs ar hyd y gerdd. Un paragraff cryno yw rhai o'r cywyddau byrion (rhifau 3, 42, 103, 119), ac mae ambell un yn ymrannu'n ddau baragraff (e.e. rhif 141). Mae strwythur tair rhan yn weddol gyffredin (e.e. rhifau 16, 45, 57), sef rhagymadrodd yn gosod y sefyllfa, corff y gerdd yn ymhelaethu, a diweddsglo. Ond mae rhai o'r cerddi hwy yn ymrannu'n bump neu chwech o baragraffau, naill ai yn ymdrin â gwahanol agweddau ar y pwnc (e.e. rhif 32), neu'n datblygu delwedd a'i chymhwyso wedyn (e.e. rhifau 75 a 111).

Fel y gwelir yn yr enghreifftiau a nodwyd eisoes, mae hyd paragraff yn amrywio, gydag ambell un mor faith ag ugain llinell, a'r paragraff clo yn aml yn bedair (e.e. 10.41–4, 90.41–4), ond yr hyd nodweddiadol yw wyth neu ddeg llinell. Mewn rhai cerddi mae hyd y paragraffau'n weddol gymesur (e.e. rhifau 32 a 87), ac mae'n bosibl bod cymesuredd manwl yn nodwedd addurnol weithiau, fel y gwelir yn yr awdl i Ieuan Llwyd (rhif 7), lle mae'r cymeriadau dechreuol yn rhannu'r gwawdodynau'n dri grŵp o bedwar. Rhannwyd 'Marwnad Rhydderch' (rhif 10) yn bedwar paragraff o ddeg llinell a diweddsglo o bedair llinell, a diau y byddai'r ddau noddwr diwylliedig yn gwerthfawrogi patrwm cywrain o'r fath. Ond ni ellir bod yn gwbl sicr am hyn, gan fod modd cydio llau 9–10 wrth y paragraff dilynol (fel y gwnaeth Thomas Parry), ac mae'n amheus a ellir defnyddio cymesuredd fel egwyddor gyffredinol ar gyfer paragraffu cerddi.



Er nad oes lle i ddadlau am y rhan fwyaf o'r paragraffu, mae barn oddrychol yn chwarae rhan ynddo hefyd, fel y gwelir o gymharu'r golygiad hwn â GDG. Ar y cyfan tueddai Thomas Parry i baragraffu rywfaint yn fwy nag y gwneir yma, a hynny'n fympwyol weithiau. Er enghraifft, yn 'Y Seren' (rhif 50) gwahanodd y llinellau sy'n sôn am Dduw fel creawdwr y sêr yn ddau baragraff o bedair llinell yr un (GDG 67.15–22). Diau mai er mwyn cyfleustra i'r darllynydd y gwnaeth hyn, fel y gellir gweld y fendith yn gliriach, ond nid yw penderfyniadau fel hyn heb eu goblygiadau o ran tôn ac ergyd y testun. Lluniodd Thomas Parry ddiweddglo trawiadol i 'Dan y Bargod' trwy osod y cwpled olaf â'i gwestiwn cyhuddgar yn baragraff ar wahân (GDG 89.45–6), ond gan fod y cymeriad cynganeddol yn cydio'r cwpled wrth y llinellau blaenorol fe'u cadwyd ynghyd yn y golygiad hwn (98.37–46). Ac felly hefyd ar gyfer y paragraff blaenorol dilynwyd y cymeriad geiriol, yn hytrach na gosod y datganiad o gariad yn llinellau 29–36 ar wahân fel y gwnaeth Parry. Yn gyffredinol ceisiwyd paragraffu ar seiliau gwrthrychol o ran synnwyr a sain yn unol â strwythur hanfodol y gerdd, gan adael llinellau ynghyd os nad oes rheswm da dros eu rhannu. Ond rhaid cydnabod bod modd cyfiawnhau paragraffu gwahanol mewn rhai achosion.

#### 47) **Teitlau cerddi**

Lluniwyd yr holl deitlau gan olygyddion modern. Fe ymddengys mai'r casgliad cynharaf a gynhwysai deitlau oedd Llyfr Wiliam Mathew, fel y gwelir yn y copiâu ohono, sef teitlau syml yn cyfeirio at wrthrych y gerdd, fel 'kywydd y gwynt'. Ni cheid teitlau ar y cerddi yn y Vetustus hyd y gwyddys. Erbyn ail hanner yr 16eg ganrif mae teitlau'n dod yn fwy cyffredin, fel y gwelir yn Llyfr Ficer Woking (C 7), rhai ohonynt yn cyfeirio at y gwrthrych, fel 'kowydd y bi' (36), ond rhai heb fod yn fwy nag arwyddion *genre*, fel 'kowydd merch' (38, 68, 69, 92 etc.) a 'kowydd kariad' (100). Erbyn yr 17eg ganrif mae'r teitlau'n tueddu i fod yn llawnach a braidd yn hirwyntog, e.e. 'Kow: ir nywl a rwystrodd i gariad gyfwrdd ar Bardd' (rhif 57 yn Wy 2), a dyna'r dull a welir yn BDG. Ifor Williams oedd y cyntaf i lunio teitlau bachog a hylaw ar gyfer y 64 o gerddi yn DGG, ac fe gadwodd Thomas Parry nifer o'r rheini yn GDG (e.e. 'Rhag Hyderu ar y Byd' GDG 76 = rhif 108). Mae rhai o deitlau GDG yn hollol amlwg a gwrthrychol, fel 'Yr Wylan', ac mae eraill wedi hen ennill eu plwyf erbyn hyn, fel na ellir yn hawdd eu newid (e.e. 'Trafferth mewn Tafarn', rhif 73, er na ddigwydd y gair *tafarn* yn y gerdd). Ond fe newidiwyd ambell deitl mwy haniaethol ar gyfer y golygiad hwn, gan geisio darparu teitlau mor niwtral â phosibl. E.e., yn lle 'Blinder' GDG 96 rhoddwyd 'Nodwyddau Serch' (rhif 100) ar sail teitl LIWM, 'kywydd nydwyddav', gan gyfeirio at brif ddelwedd y gerdd. Dull arall o fathu teitl yw cymryd ymadrodd sy'n digwydd yn y gerdd ei hun, e.e. 'Telynores Twyll' rhif 135 yn lle 'Hudoliaeth Merch' GDG 84. Yn y pen draw, labeli cyfleus yw'r teitlau, ac nid ydynt yn rhan o'r testun fel y mae teitl ar gerdd fodern.



*Dafydd ap Iwilym.net*